# Sylwadau ysgrifenedig Comisiynydd y Gymraeg ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg Gymraeg

## 1. A yw'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi gwella?

1.1 Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y CSCA yn sicr wedi gwella o'r drefn oedd yn bodoli'n flaenorol. Mae symud at gynlluniau mwy hir dymor a'r gofyn i awdurdodau lleol fynd ati yn rhagweithiol i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â thargedau penodol yn newidiadau sylweddol ac arwyddocaol.

1.2 Er hyn, mae angen cryfhau ymhellach sail ddeddfwriaethol cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Mae gwendidau a bylchau yn y gyfundrefn cynllunio ar hyn o bryd.

## 2. I ba raddau y mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at ganlyniadau a thargedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050?

2.1 Mae'n rhy gynnar i wybod ag unrhyw sicrwydd beth fydd effaith y newidiadau i'r fframwaith CSCAau ar ddatblygiad addysg cyfrwng Cymraeg yn y tymor hwy.

2.2 Mae'r CSCAau yn sicr yn rhan bwysig o'r strategaeth ar gyfer cyflawni targedau a gweledigaeth Cymraeg 2050. Ddiwedd 2021 gwnaethom ddarparu adborth manwl ar gynlluniau drafft pob awdurdod lleol. Er bod gwendidau amlwg yn nifer o'r cynlluniau drafft bryd hynny (dylem nodi na welsom y cynlluniau terfynol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Ionawr 2022), ein casgliad cyffredinol ni oedd bod y fframwaith CSCA newydd wedi arwain at gynlluniau strategol llawer mwy uchelgeisiol a phellgyrhaeddol. Prif gryfder y CSCAau yw ei fod yn fframwaith eithaf cadarn ar gyfer cynllunio sefydlu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg newydd, ac ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg presennol.

2.3 Er hyn, rydym yn glir ein barn bod angen cryfhau ymhellach elfennau o ddeddfwriaeth a pholisi sy'n cefnogi'r CSCAau a thwf addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn fwy cyffredinol. Fel y manylwn isod, ni fydd y fframwaith CSCA fel y mae'n sefyll yn ddigonol er mwyn cyflawni canlyniadau a thargedau heriol Cymraeg 2050.

2.4 Mewn perthynas â rhan allweddol o'r strategaeth, sef symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol, nid ydym o'r farn fod y trefniadau presennol yn ddigonol er mwyn cyflawni'r math o gynnydd sy'n cael ei ragweld yn strategaeth Cymraeg 2050. Ar hyn o bryd mae gwagle amlwg yn y strategaeth a'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cyflawni'r polisi hwn.

2.5 Mae hefyd ddiffygion sylweddol yn y strategaeth ar gyfer cyflawni amcanion a thargedau Cymraeg 2050 mewn perthynas â chyfraniad y sector cyfrwng Saesneg. Mae Cymraeg 2050 yn gosod targed erbyn 2050 y bydd 50% o ddysgwyr y sector cyfrwng Saesneg yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol. Nid yw'n glir beth yn union yw'r bwriad na'r strategaeth yn y cyd-destun hwn. Ai'r bwriad yw cyflwyno newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu a'i defnyddio yn holl ysgolion cyfrwng Saesneg Cymru? Ynteu a yw'r targed hwn hefyd yn ymwneud â phroses o symud nifer helaeth o ysgolion sydd ar hyn o bryd yn dilyn model addysg cyfrwng Saesneg at fodel addysg ddwyieithog? Er bod y ddwy strategaeth uchod yn llifo i mewn i'w gilydd i raddau, mae'r diffyg eglurder o ran y bwriad polisi yn arwain at ddiffyg eglurder ynghylch y strategaeth er mwyn cyflawni hyn. Un peth sy'n glir i ni yw nad yw'r CSCAau na gofynion amwys y cwricwlwm newydd am arwain at y trawsnewidiad y mae'r Llywodraeth yn ei ragdybio.

2.6 Un agwedd o'r CSCAau sy'n destun pryder penodol yw diffyg darpariaeth ADY digonol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r drafftiau CSCAau yn dyst i'r ffaith fod hwn yn broblem cenedlaethol

sy'n arwain at annhegwch sylfaenol i ddysgwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod amryw o awgrymiadau'r papur hwn (yn enwedig o ran y gweithlu addysg, pwyntiau 4.17-4.20) yn berthnasol, credwn mai'r prif flaenoriaeth yw gweithredu gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn llawn o safbwynt y Gymraeg.

2.7 Fel yr ydym yn ei egluro yn ein hymateb i gwestiwn 4, mae nifer o feysydd eraill perthnasol lle mae angen cyflwyno newidiadau polisi, strategol a deddfwriaethol er mwyn cefnogi'r CSCAau a hwyluso cyflawniad amcanion a thargedau Cymraeg 2050. Y pwysicaf o'r meysydd hyn yw cynllunio'r gweithlu.

**3. Sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i newidiadau i ganllawiau ar gategorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac a ydynt yn bodloni uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion dwy ffrwd?**

3.1 Nid oes gennym unrhyw wybodaeth na thystiolaeth uniongyrchol o sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i'r canllawiau newydd. Nid oes gan y Comisiynydd ymwneud uniongyrchol gyda chynllunio addysg ar lefel leol ac felly mae ein sylwadau yn canolbwyntio ar y fframwaith gategoreiddio yn fwy cyffredinol.

3.2 Roedd cyflwyno'r canllawiau newydd yn gam pwysig o safbwynt datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Er hyn, dim ond un rhan o'r darlun yw cyflwyno'r canllawiau a'r categorïau eu hunain. Mae nawr angen datblygu'r gyfundrefn statudol a strategol ehangach sydd am sicrhau bod y fframwaith gategoreiddio yn gweithio yn unol â'i bwrpas; sef i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws ysgolion Cymru. Heb ddatblygu'r gyfundrefn ehangach hon, ni fydd y canllawiau eu hunain yn bodloni uchelgais Llywodraeth Cymru. Fel rydym yn ei amlinellu yn ein hymateb i gwestiwn 4 (gweler pwyntiau 4.8 i 4.14) , dyma'r maes lle mae'r potensial mwyaf i gyflwyno newidiadau deddfwriaethol a strategol fydd yn hwyluso cyflawni targedau addysg Cymraeg 2050.

**4. Pa heriau a fydd yn codi o ran cynllunio a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn Bil Addysg Gymraeg arfaethedig?**

4.2 Mae ein hymateb yn canolbwyntio ar y prif feysydd y mae angen i'r Bil arfaethedig fynd i'r afael â nhw, sydd wrth reswm yn seiliedig ar ein barn ynghylch prif wendidau a heriau'r gyfundrefn cynllunio bresennol.

4.3 Un egwyddor sy'n sail i'n hawgrymiadau isod yw bod rhaid i'r Bil arfaethedig wneud mwy na gwneud mân addasiadau i'r gyfundrefn bresennol. Mae angen cyflwyno polisïau a deddfwriaeth feiddgar sydd wir am arwain at y math o gynnydd sy'n cael ei ragweld yn strategaeth Cymraeg 2050.

4.4 Er bod ein sylwadau isod yn bennaf yn deillio o'n profiad diweddar o ddarparu adborth ar CSCA pob awdurdod lleol, dylid pwysleisio bod yr argymhellion yn ystyried y CSCA o fewn cyd-destun ehangach y gyfundrefn cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Nid yw'r cynigion o reidrwydd yn ymwneud â newidiadau i'r fframwaith CSCA ei hun, ond yn hytrach i'r fframwaith statudol a strategol ehangach hwnnw sy'n cefnogi a hwyluso'r CSCAau, ac yn hynny o beth dwf addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy cyffredinol.

4.5 Wrth ystyried deddfu yn rhai o'r meysydd isod, dylid pwysleisio y bydd rhaid gweld newidiadau o safbwynt polisi a strategaeth. Un rhan o'r darlun yw deddfu, ac yn wir, mewn

rhai meysydd efallai nad deddfu sy'n briodol, ond yn hytrach rhaid gweld newidiadau i bolisi, strategaeth neu gyllideb.

## Gosod nod statudol clir ac uchelgeisiol a rhoi sail statudol i dargedau ac amcanion polisi addysg strategaeth Cymraeg 2050

4.6 Dylai'r Bil gynnwys nod statudol uchelgeisiol y bydd Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod y system addysg yng Nghymru, erbyn 2050, yn gwarantu cyfle i bob dysgwr ddatblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy osod targedau, ymrwymiadau neu fframweithiau statudol mewn perthynas â phrif amcanion addysg strategaeth Cymraeg 2050:

- Ehangu addysg cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru
- Symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol
- Sicrhau bod pob ysgol cyfrwng Saesneg presennol yn symud ar hyd y continwwm ieithyddol er mwyn sicrhau cyfle i ddysgwyr ddatblygu rhuglder yn y Gymraeg
- Cynllunio'r gweithlu

4.7 Dylid gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arfer eu pwerau yn unol â'r amcanion statudol hyn.

## Mewn perthynas â'r CSCA â'r categorïau ieithyddol, cyflwyno fframwaith statudol a chyllidebol pwerus ar gyfer hwyluso symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol

4.8 ***Gosod y diffiniadau a'r categorïau ar sail statudol****:* un ffordd o wneud hyn fyddai cyfeirio at y drefn gategoreiddio ar flaen y Bil a chynnwys y manylder mewn rheoliadau.

4.9 ***Gosod trefniadau atebolrwydd mwy cadarn:*** byddai hyn yn cynnwys gofynion adrodd a chyhoeddi gwybodaeth, a hefyd gwaith monitro allanol gan gorff rheoleiddio addysg er mwyn sicrhau dilysrwydd a chadernid y system gategoreiddio yng nghyd-destun bwriad y polisi.

4.10 ***Cyhoeddi canllawiau statudol ar symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol:*** dylai'r canllawiau hyn egluro ac enghreifftio arfer da a chynnig cefnogaeth ymarferol i ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae angen arweiniad/model cenedlaethol ar y broses o symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol, gan gynnwys ystyriaethau datblygu cwricwlwm, adnoddau, staffio, cyfathrebu â rhieni, ymgynghori, cynllunio ayyb.

4.11 ***Trefn statudol gadarn ar gyfer rheoli'r broses o symud ysgol ar hyd y continwwm:*** mae'r Adroddiad yr adolygiad annibynnol i ail-ddiffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn crybwyll y syniad o 'Gynllun trawsnewid ysgol' – sef cynllun sy'n cael ei gytuno rhwng awdurdod lleol ac ysgol sy'n cwmpasu'r amserlen, strategaeth, a'r dull gweithredu ar gyfer symud ysgol o un categori i'r llall dros gyfnod o amser. Dylai'r Bil ddatblygu'r syniad yma a chreu cyfundrefn statudol ar gyfer symud ysgolion ar hyd continwwm. Byddai modd egluro gofynion 'cynllun trawsnewid ysgol' gan egluro sut byddai hyn yn plethu gyda dyletswyddau i lunio CSCA, a hefyd perthynas hyn â materion cyllidebol, cefnogaeth ac ymgynghori (gweler isod). Gellid ystyried y cynlluniau hyn fel CSCA ar lefel ysgol.

4.12 ***Pŵer i Weinidogion ddarparu cyllid a chefnogaeth benodol i ysgolion mewn cyfnod trosiannol (y rhai sydd wedi cytuno ar gynllun trawsnewid ysgol):*** dylai'r drefn statudol ar gyfer symud ysgol ar hyd y continwwm gynnwys cysylltiad clir â phecyn pwrpasol a phwerus o adnoddau a chyllid ar gyfer yr ysgolion hyn. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant staff, cefnogaeth o ran adnoddau ac arbenigedd cynllunio, a defnydd llawer mwy strategol o gyllidebau presennol y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg, Grant Gwella Addysg a Grantiau Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol.

4.13 ***Diwygio prosesau ymgynghori 'newid a reoleiddir':*** mae angen diwygio gofynion adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ogystal â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion er mwyn galluogi a hwyluso'r broses o symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol. Mae'n briodol bod proses o ymgynghori ar y bwriad i symud ysgol ar hyd y continwwm, ond nid yw'r fframwaith 'newidiadau a reoleiddir' mewn perthynas â chyfrwng iaith ysgolion (gweler tabl 1 o baragraff 7, neu dabl 2 o baragraff 7 yn Atodlen 2 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013) yn addas yng nghyd-destun polisïau addysg presennol y Llywodraeth. Un opsiwn fyddai ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori unwaith ar gychwyn proses symud ysgol ar hyd y continwwm ieithyddol (a hynny ar sail cynllun trawsnewid ysgol), yn hytrach na sawl gwaith ar hyd y daith.

4.14 ***Pŵer i Weinidogion Cymru ofyn i ysgolion neu awdurdodau lleol gyflwyno newidiadau i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgol:*** mae angen i'r broses o symud ysgol ar hyd y continwwm ddigwydd ar sail cefnogaeth ysgolion, ac yn bwysicach y rhieni a'r disgyblion. Ond credwn fod angen darparu'r disgresiwn hwn i Weinidogion Cymru rhag ofn bod tystiolaeth (er enghraifft yn deillio o waith monitro allanol) nad yw ysgolion/awdurdodau lleol yn ymateb yn ddigonol i alw ymysg rhieni a disgyblion.

## Gosod mecanwaith deddfwriaethol ar gyfer codi safonau mewn ysgolion cyfrwng Saesneg dros gyfnod o amser er mwyn sicrhau erbyn 2050 bod y system addysg yng Nghymru yn cynnig cyfle i bawb ddatblygu rhuglder yn y Gymraeg

4.15 Nid oes ar hyn o bryd strategaeth wirioneddol ar gyfer cyflawni'r nod o sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sy'n gadael y sector cyfrwng Saesneg yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Dylai'r Bil fynd i'r afael â'r diffygion hyn drwy:

- Gofyniad i Weinidogion Cymru gyflwyno un continwwm iaith Gymraeg ar gyfer mesur, disgrifio ac asesu sgiliau Cymraeg disgyblion.
- Ar sail y continwwm iaith Gymraeg, rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu disgwyliadau a deilliannau cyflawni eglur a manwl ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg.
- Ar sail y continwwm iaith Gymraeg, rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno amserlen sy'n nodi pryd ac ar ba gyflymder y bydd y disgwyliadau hyn ar ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael eu codi. Mae angen i'r amserlen fanylu sut a pha bryd bydd y 'sgaffaldau' sy'n cefnogi dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog yn cael eu haddasu a'u hadolygu gyda'r bwriad hir dymor o gau'n sylweddol y bwlch rhwng disgyblion ysgolion cyfrwng Saesneg a disgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg. Dylid cysylltu'r gwaith hwn â chynigion o ran cymwysterau'r Gymraeg, gan nodi sut bydd cymwysterau'r Gymraeg yn addasu i'r broses o godi disgwyliadau yn raddol er mwyn cyflawni'r nod hir dymor o gael un cymhwyster Cymraeg ar gyfer holl ysgolion Cymru.
- Rhoi pŵer i Weinidogion gyhoeddi canllawiau statudol ynghylch datblygu cwricwlwm y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Byddai'r canllawiau i bob pwrpas yn gyfarwyddyd i ysgolion ynghylch sut mae datblygu cwricwlwm sy'n debygol o fodloni'r disgwyliadau sydd wedi eu gosod arnynt.
- Cysylltu'r uchod gyda rhaglen dysgu broffesiynol pwrpasol.
- Codi statws y Gymraeg fel rhan allweddol o waith hunanwerthuso ysgolion a gwaith arolygu a monitro allanol

4.16 Byddai'r ymrwymiadau uchod felly yn gosod mewn deddfwriaeth y gofyniad i bob ysgol gychwyn y daith ar hyd y continwwm ieithyddol. Byddai dyletswydd statudol ar Weinidogion

Cymru, drwy'r continwwm, i gyflwyno fframwaith ac amserlen ar gyfer sicrhau bod cyfran gynyddol o ddisgyblion Cymru, ni waeth beth yw categori ieithyddol yr ysgol, yn cyrraedd haenau uchaf y continwwm. Yn ychwanegol i'r strategaethau ar gyfer ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a symud ysgolion ar hyd continwwm, byddai'r ymrwymiadau uchod yn ffordd o sicrhau nad yw'r system addysg yng Nghymru yn allgau nifer helaeth o ddisgyblion o fanteision dwyieithrwydd.

### Cryfhau sail statudol cynllunio gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg

4.17 Heb os, dyma ran fwyaf allweddol yr holl strategaeth. Er bod cyhoeddi [Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg] yn gam pwysig i'r cyfeiriad cywir, bydd rhaid mynd ymhellach os am gyflawni targedau addysg Cymraeg 2050. Mae datblygu'r Bil yn gyfle amlwg i gyflwyno newidiadau deddfwriaethol er mwyn cefnogi'r gwaith hwn.

4.18 Rhan bwysig o hyn fyddai rhoi sail statudol i'r cynllun gweithlu, a gofynion penodol o fewn hynny i Weinidogion Cymru adolygu a diweddaru'r cynllun ar sail gwaith modelu a dadansoddi data.

4.19 Yn y tymor hwy bydd rhaid i Lywodraeth Cymru integreiddio hyfforddiant iaith Gymraeg fel rhan annatod o broses hyfforddi a chymhwyso fel athro i ran helaethaf hyfforddeion Cymru. Un rhan o hyn fyddai gosod mewn deddfwriaeth fecanwaith mwy cadarn ac amlwg ar gyfer codi disgwyliadau a gofynion ieithyddol athrawon dros gyfnod o amser. Y rhan arall allweddol fydd cynllunio'r ddarpariaeth hyfforddiant iaith yn effeithiol. Un ffordd o gyflawni hyn fyddai manteisio ymhellach ar arbenigedd sefydliadau fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn cynllunio darpariaeth addysg ôl-orfodol a hyfforddiant ieithyddol. Gellid integreiddio egwyddorion rhaglenni presennol megis Cymraeg Gwaith a'r Cynllun Sabothol i mewn i'r hyfforddiant o'r cychwyn.

4.20 Mae angen datblygu hyn y tu hwnt i gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon yn y sector statudol, gan sicrhau cynlluniau cyfatebol ar gyfer meysydd blaenoriaeth eraill, er enghraifft y gweithlu gofal plant a blynyddoedd cynnar, anghenion dysgu ychwanegol, addysg ôl-16, ac elfennau o ofal ac iechyd. Mae cyfle yma i Gymru arloesi drwy ddatblygu arbenigedd mewn creu gweithlu dwyieithog a phedagogeg addysg/hyfforddiant dwyieithog.

### Sicrhau bod prosesau cyllido a chymeradwyo prosiectau cyfalaf addysg wedi'u halinio â gweledigaeth a thargedau Cymraeg 2050

4.21 Mae angen datblygu trefniadau mwy cydlynus, sefydlog ac uniongyrchol o sicrhau bod cyllideb cyfalaf addysg y Llywodraeth yn hwyluso cyflawniad amcanion Cymraeg 2050.

4.22 Yn hytrach na chyflwyno potiau arian cyfalaf achlysurol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, credwn fod potensial i gydlynu'r Rhaglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r CSCA mewn ffordd fwy effeithiol ac uniongyrchol. Mae hyn yn wir o safbwynt gwaith cynllunio awdurdodau lleola phrosesau dyfarnu'r Llywodraeth. Y pwynt syml yw bod angen i dargedau Llywodraeth Cymru a'r CSCAau fod yn rhan ganolog, yn hytrach nag ymylol, o'r holl broses o ymgeisio a chymeradwyo prosiectau ad-drefnu addysg yn fwy cyffredinol.

4.23 Byddai hyn hefyd yn ffordd o sicrhau nad oes penderfyniadau cyllido yn cael eu gwneud sydd â'r canlyniad anfwriadol o danseilio datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg.

### Ystyried ffyrdd posibl o gryfhau gofynion cyd-gynllunio strategol rhwng darpariaeth cyn-ysgol, y cyfnod statudol, a darpariaeth ôl-16

4.24 Pa bynnag newidiadau deddfwriaethol fydd yn cael eu cyflwyno mewn perthynas â'r sector statudol, mae angen ystyried sut gellid cyflwyno trefniadau cyfatebol ar gyfer y sector cyn-ysgol, ac os yn berthnasol ôl-16. Yng nghyd-destun y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y papur hwn, mae'r cynigion ynghylch y gweithlu yn un maes amlwg lle gellid cynnwys y sector cyn-ysgol ac ôl-16. Yn achos y sector cyn-ysgol yn benodol, credwn fod yr holl gynigion yn berthnasol.

4.25 Mae'r drafftiau CSCA diweddaraf yn dangos gwell cyd-gynllunio strategol rhwng y sector gofal plant/blynyddoedd cynnar, a'r sector statudol. Er bod rhywfaint o dystiolaeth o gyd-gynllunio tebyg rhwng y sector statudol ac ôl-16 mewn rhai o'r CSCAau drafft, mae'r agwedd hwn o'r cynlluniau yn parhau yn wan ar lefel cenedlaethol. Mae'n ymddangos i ni bod potensial amlwg i gyflwyno gofynion mwy penodol o ran cyd-gynllunio rhwng ysgolion a cholegau addysg bellach ar lefel sirol/rhanbarthol er mwyn sicrhau dilyniant effeithiol mewn addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

### Trefniadau cludiant i'r ysgol

4.27 Mae angen cyflwyno newidiadau i Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 er mwyn osgoi amwyster presennol y ddeddf ynghylch y ddyletswydd sydd ar awdurdodau lleol a Gweinidogion i hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen sicrhau bod y ddeddf yn hwyluso mynediad at addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg gan gynnwys addysg ôl-orfodol cyfrwng Cymraeg. Dylid nodi bod Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cynnal adolygiad o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a chasgliad yr adolygiad oedd bod angen datblygu rhaglen ehangach o waith sy'n cynnwys ystyried diwygiad llwyr o'r Mesur. Byddem yn cefnogi'r bwriad i gynnal adolygiad llawn o'r mesur, gan roi sylw penodol i faterion yn ymwneud a chludiant i addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ôl-orfodol. Bydd angen sicrhau bod y Bil Addysg Gymraeg arfaethedig a'r gwaith o ddiwygio'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr yn cael ei gydlynu'n effeithiol.